| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 5 Medi 2024 |
| **Aelod/ Swyddog Arweiniol** | **Y Cynghorydd Barry Mellor: Aelod Arweiniol Cludiant a'r Amgylchedd / Paul Jackson: Pennaeth Priffyrdd a'r Amgylchedd** |
| **Awdur yr Adroddiad** | Mark Evans: Rheolwr Priffyrdd, Asedau a Risg Dros Dro |
| **Teitl** | Rhaglen Cynnal a Chadw Gridiau a Gylïau Priffyrdd |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Archwilio polisi'r Cyngor ar gyfer cynnal a chadw systemau draenio priffyrdd ledled y Sir, yn ogystal â sut mae'r gwaith yn cael ei flaenoriaethu a'r heriau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Sicrhau bod yr Aelodau'n deall sut mae ein dyletswyddau statudol yn cael eu bodloni o dan y Ddeddf Priffyrdd a'r Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr, o ran rheoli dŵr wyneb drwy ein gwaith o gynnal a chadw'r rhwydwaith draenio priffyrdd a cheuffosydd perygl llifogydd hanfodol, er mwyn sicrhau bod y priffyrdd wedi'u draenio'n dda ac felly'n ddiogel a bod eiddo yn cael eu hamddiffyn yn ystod cyfnodau o stormydd. Darperir eglurhad ynghylch pwysau a diffyg hefyd.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn ystyried yr adroddiad a chadarnhau eu bod yn hapus y defnyddir y dull cywir o ran cynnal a chadw draeniau priffyrdd, er mwyn cael yr aliniad gorau rhwng y risg i ddefnyddwyr a'r cyllid sydd ar gael.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Mae cynnal a chadw'r ffyrdd yn Ddyletswydd Statudol a bennir gan Ddeddf Priffyrdd 1980. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae pwysigrwydd systemau draenio priffyrdd wedi dod yn fwy amlwg, a gwelwyd mwy o achosion o lifogydd ac mae ei effaith ar asedau isadeiledd priffyrdd eraill hefyd yn hanfodol i atal tyllau yn y ffordd a dŵr llonydd rhag ffurfio, a fyddai'n arwain at fwy o berygl o rew ac felly'n peryglu diogelwch.

4.2 Mae dros 25,000 o gylïau priffordd wedi'u cofnodi yn Sir Ddinbych (at ddibenion yr adroddiad hwn, defnyddir 'gylïau' i ddisgrifio'r holl gridiau draenio priffyrdd, ond nid yw'n cynnwys ffosydd) a thros 30 o geuffosydd a chyrsiau dŵr hanfodol. Mae ceuffosydd hanfodol yn cael eu hystyried fel yr asedau hynny, os nad ydynt yn cael eu cynnal a'u cadw, a fyddai'n arwain at faterion llifogydd ar gyfer grŵp o eiddo yn hytrach nag eiddo unigol. Er mwyn sicrhau glendid yr asedau hyn, defnyddir dau dancer gwli a fan gydag uned chwistrellu dŵr. Mae dau weithiwr yn gweithio ar y tanceri. Mae un tancer yn glanhau'r gylïau yng ngogledd y Sir (gan gynnwys Dinbych) ac mae'r tancer arall yn glanhau'r gylïau yn y De. Defnyddir y fan chwistrellu dŵr gan un gweithiwr ar hyn o bryd, sy'n gweithio ledled y sir, er mwyn archwilio systemau draenio a chymryd camau dilynol os bydd angen.

4.3 Mae'r holl gylïau yn cael eu cynnal a'u cadw yn ôl amserlen, a'u glanhau ar sail dull seiliedig ar risg, h.y. os ydym yn credu bod yna broblemau posibl, caiff rhai gylïau eu glanhau ddwywaith y flwyddyn, ac mewn lleoliadau lle nad oes unrhyw broblemau hanesyddol o ran rhwystrau, cânt eu glanhau bob tair blynedd. Mae lleoliadau gyda risg uchel o lifogydd yn cael eu hystyried fel 'mannau problemus', ac mae'r rhain yn cael eu gwirio pan fydd datganiadau rhybudd llifogydd yn cael eu cyhoeddi gan y Swyddfa Dywydd.

4.4 Yn hanesyddol, roedd amserlenni yn cael eu cofnodi ar bapur, fodd bynnag, dros y 18 mis diwethaf, fe'u trosglwyddwyd i system cronfa ddata ar-lein yr ydym wedi buddsoddi ynddi, sef GULLYSmart. Mae'n feddalwedd sy'n seiliedig ar fap sy'n nodi lleoliad pob gwli ledled Sir Ddinbych ac yn cadw cofnod o bryd y cafodd pob gwli ei lanhau. Rydym yn ymwybodol nad yw'r rhestr eiddo yn un gyflawn (er enghraifft, daeth y tîm o hyd i 11 gwli ychwanegol ar un ffordd yn ddiweddar, er mai dim ond 3 gwli a oedd wedi'u cofnodi ar y system bapur!!), gan fod cofnodion hanesyddol yn wael a bod cofnodion am asedau wedi'u colli. Mae'r feddalwedd wedi caniatáu i'r

timau ychwanegu mwy o gylïau a chofnodi unrhyw broblemau o ran perfformiad rhwydweithiau draenio h.y. os oes yna unrhyw ddiffygion yn y pibellau. Mae hyn wedi arwain at nodi nifer o fân gynlluniau gwaith draenio ac mae disgwyl i'r system nodi gwaith pellach wrth i'r criwiau barhau i gynnal gwaith ar draws y Sir. Mae rhywfaint o gyllid cyfalaf wedi'i neilltuo ar gyfer cynnwys y lleoliadau hyn ar y rhaglen gwaith cyfalaf.

4.5 Mae sawl ffactor sy'n gwneud y gwaith o lanhau gylïau yn heriol. Un o'r materion sylfaenol sy'n ein hwynebu dros fisoedd y gaeaf yw mai dim ond un tancer sy'n weithredol yn aml iawn, oherwydd dyletswyddau graeanu, gan fod gofyn i'r gweithwyr drosglwyddo i wneud hynny. Caiff hyn gryn effaith ar gynhyrchiant yn ystod cyfnod lle gall dŵr ar y briffordd achosi'r perygl mwyaf oherwydd rhew. Yn ogystal, bydd angen i dimau ymateb i alwadau yn ôl yr angen gan dimau priffyrdd eraill ac adroddiadau gan gwsmeriaid ynghylch cynnal a chadw draeniau, gan felly newid y drefn lanhau a drefnwyd. Un broblem sylweddol sy'n codi yn yr hydref yw adroddiadau gan gwsmeriaid ynghylch gylïau wedi'u rhwystro, sydd mewn gwirionedd yn ymwneud â dail a gweddillion eraill yn gorchuddio caead y gwli ac felly'n achosi llifogydd ar y briffordd. Nid oes angen tancer a'r criw ar gyfer hyn, byddai lluniau o broblemau o'r fath yn hynod werthfawr, er mwyn sicrhau bod yr adnoddau priodol yn cael eu defnyddio, gan felly wella effeithlonrwydd.

Mae gostyngiadau diweddar yn y gyllideb refeniw wedi arwain at roi'r gorau i lanhau ffosydd gwledig a lleihad sylweddol yn y gwaith ysgubo ffyrdd. Mae'r gweithgareddau hyn yn cyfrannu'n sylweddol at atal gweddillion rhag cyrraedd y system ddraenio, gan arwain at rwystrau a mwy o ddŵr llonydd pan fydd ffosydd yn dal wedi'u cau.

4.6 Mae glanhau gylïau ar y Prif Ffyrdd hefyd yn profi'n anodd yn Sir Ddinbych, oherwydd gofynion rheoli traffig ar gyfer gweithio'n ddiogel. Er bod gwaith Cylchol yn cael ei wneud mewn rhai rhannau o'r Sir, mae cost sylweddol ynghlwm â hynny. Yn 2023, fe wnaethom glirio pob gwli a ffos ar yr A525 rhwng Dinbych a Rhuthun yn gyfan gwbl. Cafwyd ymateb da i hyn a bu i'r gwaith brofi'n hynod fuddiol. O ystyried toriadau diweddar, mae'n annhebygol y bydd modd gwneud hyn eto mewn mannau eraill, er bod angen gwneud hynny.

4.7 Rhagwelir y byddwn yn parhau i ychwanegu at ein cofrestr asedau draenio, gan flaenoriaethu ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd lleol. Byddwn yn parhau i ddiweddaru'r rhaglenni casglu gwybodaeth am y gylïau a'u cyflwr. Bydd hyn yn

gwella perfformiad yr asedau ac yn gosod y sylfeini ar gyfer rhaglenni'r dyfodol er mwyn blaenoriaethu'r gwaith o'u cynnal a'u cadw yn effeithiol ac effeithlon. Ymhen amser, rydym yn rhagweld y bydd modd i ni rannu rhaglenni gwaith y dyfodol gydag Aelodau. Mae hynny'n digwydd eisoes gyda gwaith rhoi wyneb newydd ar ffyrdd sydd wedi'i gynllunio (er enghraifft).

4.8 Mae'r ddyletswydd i gynnal a chadw'r briffordd yn absoliwt ac mae ein dull ar gyfer gwneud hynny yn seiliedig ar ein Cod Ymarfer. Fodd bynnag, yn sgil gostyngiadau diweddar o ran y cyllidebau Cyfalaf a Refeniw, bydd angen adolygu hyn.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Mae "Buddsoddi mewn ffyrdd a phontydd i gynnal isadeiledd hyfyw, cynaliadwy" yn ymrwymiad amlwg yn y Cynllun Corfforaethol cyfredol, ac yn ffurfio rhan o'r Flaenoriaeth Gorfforaethol Cysylltu Cymunedau.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes unrhyw effaith sylweddol ar wasanaethau eraill. Bydd y drefn a nodir yn y papur hwn yn cael ei gyflawni o fewn cyllidebau sy'n bodoli.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Ni ofynnir am benderfyniad gan yr adroddiad hwn, felly ni chynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Les.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Mae'r egwyddorion sy'n sail i'r dull hwn wedi cael eu trafod â'r Aelodau ar sawl achlysur, megis yn flynyddol, yn holl gyfarfodydd Grwpiau Ardal yr Aelodau a'r gweithdy Priffyrdd a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2024.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Mae'r Cyngor, ynghyd â'r holl gynghorau eraill, yn wynebu cyfyngiadau ariannol sylweddol fel y nodir yn y Strategaeth a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, sy'n cael

eu rhannu’n rheolaidd â’r Aelodau. Mae'n rhaid i bob adran gynllunio sut y maent yn darparu gwasanaethau statudol ac ataliol yn ofalus, gyda llai o adnoddau fel y mae'r Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol wedi'i wneud yn yr adroddiad hwn. Wrth osod y gyllideb ar gyfer 2024/25, roedd yn rhaid dod o hyd i arbedion o £10.4 miliwn. Nid oes modd gwneud arbedion o’r fath heb gael effaith ar y ddarpariaeth gwasanaeth, sydd wedi’i nodi’n glir yn yr adroddiad.

## 10. Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae’r cynnig a nodir yn y papur hwn wedi ei ddylunio'n benodol i reoli risg, yn unol â’n dyletswydd o dan y Ddeddf Priffyrdd.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Ni cheisir unrhyw benderfyniad yn yr adroddiad hwn.